# Ymunwch â ni ar gyfer Diwrnod Trysorau Treftadaeth 11 Ionawr 2022

04/01/2022



Painted Hall. Credyd: Alys Tomlinson

Rydym yn dechrau'r Flwyddyn Newydd drwy ddathlu treftadaeth gyfoethog ac amrywiol y DU – ac rydym am i chi gymryd rhan.

Ymunwch â ni ddydd Mawrth 11 Ionawr 2022 i nodi diwrnod #TrysorauTreftadaeth. Mae'n foment ar y cyfryngau cymdeithasol a sefydlwyd gennym i ddathlu prosiectau treftadaeth gwych o bob math yr ydym wedi'u cefnogi dros y blynyddoedd ledled y DU.



Tirwedd aeafol syfrdanol Llyn Ogwen ger Bethesda, Gwynedd

Beth bynnag yw eich trysorau treftadaeth, cymerwch ran yn y sgwrs ar-lein ar y diwrnod. Gallai rhai syniadau gynnwys:

- eitem gasglu ysbrydoledig
- parc lleol y buoch yn ymweld ag ef drwy gydol y pandemig
- yr anifeiliaid a welwch yn eich gardd
- uchafbwynt amgueddfa
- stori dreftadaeth sy'n bwysig i chi neu'ch sefydliad

Efallai eich bod wedi mwynhau neu greu rhaglen dreftadaeth ar-lein arloesol, efallai yr hoffech ddweud diolch wrth eich staff a'ch gwirfoddolwyr treftadaeth, neu efallai yr hoffech chi gynhoeddi eich prosiect a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.


Castell a gerddi hardd Hillsborough yng Ngogledd Iwerddon

## Sut i gymryd rhan

Rhannwch eich #TrysorauTreftadaeth gyda ni ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod ar 11 Ionawr a thagiwch @HeritageFundCYM /  @HeritageFundUK.

Postiwch lun ysbrydoledig a rhowch wybod i ni pam rydych chi wedi'i ddewis. Cofiwch archwilio'r hyn y mae pawb arall wedi'i ddewis hefyd. Byddwn yn rhannu detholiad o'r rhai gorau.

Allwn ni ddim aros i ddathlu ein holl drysorau treftadaeth anhygoel ledled y DU a gweld beth fyddwch chi'n ei rannu ar y diwrnod!

Porwch drwy enghreifftiau o'r gorffennol: #HeritageTreasures - Twitter Search / Twitter

> We enjoyed Heritage Treasure Day so much on Monday it's been a lift for our whole week. It's a bit late but when the snow started to fall today we thought we'd share with you our heritage treasure which is looking like a real jewel in this weather. #heritagetreasures pic.twitter.com/5W0ZmaFZEy
>
> — Hyde Park Picture House (@HydeParkPH) January 14, 2021

> Happy #HeritageTreasures Day!
>
> For many, connecting with our heritage has become even more important this year.
>
> Being able to share our love of Scotland's great heritage with you all virtually has kept our spirits up over the past months. pic.twitter.com/9JsYyFjwNG
>
> — Historic Scotland (@welovehistory) January 11, 2021

## Dod o hyd i brosiectau eraill

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy, neu os hoffech gael ffynhonnell ysbrydoliaeth arall, edrychwch ar rai o'r prosiectau gwych rydym wedi'u hariannu.